# Profedigaeth Cymorth a Chyngor

# Bereavement Help and Advice

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

*Bwriad y llyfryn hwn yw helpu ar adeg marwolaeth perthynas neu ffrind.*

*Ei nod yw rhoi cymorth a chanllawiau ymarferol i chi gyda rhai o'r trefniadau a'r penderfyniadau y bydd efallai angen i chi eu gwneud yn ystod cyfnod o brofedigaeth.*

Caiff y materion canlynol sylw yn y llyfryn hwn:

# Cynnwys


## Gofal diwedd oes

4 Gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr er mwyn helpu i wneud penderfyniadau am CPR

4 Pan fydd marwolaeth yn digwydd

## Yr Ychydig Ddyddiau Cyntaf

5 Yn dilyn y farwolaeth

5 Casglu'r dystysgrif marwolaeth

6 A yw rhoi meinwe yn bosibilrwydd?

6 Beth os yw fy mherthynas neu ffrind yn dymuno rhoi ei gorff/chorff i ymchwil meddygol?

## Y Dyddiau Canlynol

7 Dychwelyd offer

8 Sut ydw i'n cofrestru marwolaeth?

11 Gwasanaeth Dweud wrthym Unwaith

12 Beth os oes angen i'm perthynas neu ffrind gael ei drosglwyddo/throsglwyddo y tu allan i Gymru neu Loegr?

12 Sut ydw i'n trefnu'r angladd?

13 Beth am yr Ystâd a'r Ewyllys?

14 Beth os yw'n marw heb Ewyllys?

14 Rhestr wirio derfynol o'r dogfennau a allai fod angen eu dychwelyd

14 Pobl y gallech fod am eu hysbysu yn dilyn y farwolaeth

15 Detholiad o Rifau Ffôn a Gwefannau Cymorth / Gwybodaeth

20 Adborth Gwasanaeth Nyrsio Ardal

22 Nodiadau

## Gofal diwedd oes

Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol darparu gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr er mwyn helpu i wneud penderfyniadau am CPR (Adfywio Cardio-pwlmonaidd), a gellir gweld y wybodaeth hefyd ar wefannau holl Fyrddau Iechyd y GIG.

Gallwch ofyn i'ch tîm gofal iechyd am gopi o'r daflen a gynhyrchwyd gan Grŵp DNACPR Cymru Gyfan

"Rhannu a Chynnwys" Gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr er mwyn helpu i wneud penderfyniadau am CPR (Adfywio Cardio-pwlmonaidd)"

## Pan fydd marwolaeth yn digwydd

Nid yw bob amser yn glir pan fydd union adeg marwolaeth yn digwydd. Pan fydd person yn marw efallai y byddwch yn sylwi bod ei wyneb yn sydyn yn ymlacio ac yn edrych yn heddychlon. Mae llawer o wahanol gredoau ynglŵn â beth sy'n digwydd wedi marwolaeth, ond efallai y bydd pobl sydd wrth law yn synhwyro bod ymwybyddiaeth wedi mynd.

Mae'n amhosibl rhagfynegi sut y byddwch chi'n ymateb i farwolaeth rhywun sy'n annwyl i chi gan fod pawb yn unigolyn, hyd yn oed pan fyddwch yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd. Efallai y cewch lawer o wahanol deimladau ac emosiynau wedi i berson farw, hyd yn oed yn yr ychydig funudau ac oriau cyntaf. Nid oes ffordd gywir nac anghywir i deimlo ac ymateb. Os ydych chi ar eich pen eich hun ar yr adeg hon, efallai y byddwch am ofyn i rywun ddod i roi cefnogaeth i chi. Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â meddyg teulu'r person ar yr adeg hon, gan y bydd angen iddo ef neu hi gofnodi bod y person wedi marw.

## Arferion neu ddewisiadau ar adeg marwolaeth

Os oes nyrs neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn bresennol, bydd ef neu hi yn gwirio a oes unrhyw arferion neu ddewisiadau crefyddol neu eraill sydd angen eu dilyn. Dywedwch wrthynt os oes rhywbeth y dylent neu na ddylent ei wneud. Byddant yn parchu eich dymuniadau a dymuniadau'r person sydd wedi marw.

## Y defodau olaf neu roi’r corff i orffwys

Mae’r defodau olaf a rhoi’r corff i orffwys yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Yma rydym yn cyfeirio at ofal o’r person wedi iddo ef neu hi farw, a allai gynnwys golchi’r corff a’i wisgo mewn dillad glân. Efallai y byddwch yn teimlo ei fod o gysur i wneud tasgau o’r fath. Ar y llaw arall, efallai y byddwch yn teimlo y byddai’n peri trallod, neu y byddai’n well gennych adael i eraill wneud hyn.

Dylid gadael unrhyw offer, megis gyrrwr chwistrell, yn eu lle hyd nes bod gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol wedi cofnodi’n gywir bod marwolaeth wedi digwydd. Y term ar gyfer hyn yw cadarnhad ffurfiol o farwolaeth.

## Yr Ychydig Ddyddiau Cyntaf

### Yn dilyn y farwolaeth

Yn dilyn marwolaeth eich perthynas neu ffrind, bydd angen i feddyg neu nyrs sydd wedi’i hyfforddi’n arbennig ymweld er mwyn cadarnhau’r farwolaeth. Yn ystod oriau arferol y feddygfa trefnir hyn gan feddygfa eich meddyg teulu lleol. Fodd bynnag, y tu allan i oriau arferol meddygfa bydd meddyg teulu, neu nyrs wedi’i hyfforddi’n arbennig, o’r gwasanaeth Tu Allan i Oriau fel arfer yn ymweld.

Os yw’r corff i gael ei losgi fe’ch cynghorir ei fod yn arfer cyffredin i’r farwolaeth gael ei hardystio gan ddau feddyg, felly peidiwch â chynhyrfu os byddwch yn cael galwad gan feddyg arall – mae hyn yn arferol.

Gallwch gysylltu â threfnydd angladdau er mwyn gwneud cynlluniau rhagbaratoadol cyn eich bod yn cofrestru’r farwolaeth.

## Casglu’r dystysgrif marwolaeth

Gellir casglu Tystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth (MCCD) o feddygfa eich meddyg teulu lleol - gofynnwn i chi gysylltu â meddygfa eich meddyg teulu ymlaen llaw er mwyn gwneud yn siŵr bod y Dystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth yn barod. Nid yw Tystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth yn dystysgrif marwolaeth swyddogol - cyhoeddir hon gan y

Cofrestrydd Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau pan fyddwch yn cofrestru'r farwolaeth.

***Byddem yn cynghori peidio â threfnu apwyntiad gyda'r Cofrestrydd Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau hyd nes bod y Dystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth wedi ei rhoi gan feddygfa eich meddyg teulu.***

Gellir cael gwybodaeth ddefnyddiol ar wefan y Llywodraeth *https://www.gov.uk/browse/births-deaths-marriages/death*

## A yw rhoi meinwe yn bosibilrwydd?

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cefnogi'n llawn rhoi organau a meinwe. Efallai y bydd rhoi meinwe yn bosibilrwydd wedi i'ch perthynas neu ffrind farw. Mae rhodd o'r fath yn anrheg wych a gall newid bywydau'r derbynwyr yn sylweddol. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu rhoi eu cornbilennau (rhan o'r llygad). Gall hyn ddigwydd hyd at 24 awr wedi'r farwolaeth a gall adfer golwg dau berson drwy drawsblaniad cornbilen. Tynnir y meinwe a roddir mewn modd gofalus a gyda pharch a gofal mawr. Nid yw'n eich atal rhag ffarwelio nac yn effeithio ar drefniadau angladd.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Atgyfeirio Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ar **0800 432 0559**. Mae hwn yn wasanaeth galwr 24 awr. Gadewch eich enw a rhif ffôn llawn a bydd Nyrs Arbenigol o'r adran Rhoi Meinwe yn dychwelyd eich galwad.

## Beth os yw fy mherthynas neu ffrind yn dymuno rhoi ei gorff/chorff i ymchwil meddygol?

Os mai'r dymuniad oedd rhoi'r corff i ymchwil meddygol dylech gysylltu â'r Adran Anatomeg ym Mhrifysgol Caerdydd cyn gynted â phosibl ar Ffôn: **029 2087 4370** a byddant yn dweud wrthych beth i'w wneud nesaf.

Mae'n hollbwysig bod yr ymadawedig wedi arwyddo'r gwaith papur angenrheidiol yn ystod ei oes, yn egluro mai dyma ei ddymuniad a bod ei lofnod wedi'i dystio.

# Y Dyddiau Canlynol

## Dychwelyd offer

Gall y Llinell Nyrsio Ardal roi cyngor ynglŷn â dychwelyd offer a chyflenwadau meddygol **029 2044 4501**

Gellir dychwelyd offer megis fframiau cerdded a chymhorthion cerdded i unrhyw safle ysbyty Caerdydd a'r Fro.

## Rhifau defnyddiol ar gyfer yr adrannau storfa

Gogledd a Chanol Caerdydd:
Storfeydd Llanisien: **029 2087 3673**

De Caerdydd a Bro Morgannwg:
Westpoint: **029 2071 2555**

***Dylid mynd ag unrhyw feddyginiaethau sydd heb eu defnyddio i'ch fferyllfa leol er mwyn eu gwaredu'n ddiogel.***

# Sut ydw i'n cofrestru marwolaeth?

Gellir cofrestru'r farwolaeth yn; Swyddfa Gofrestru Caerdydd, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF10 3ND.


Mae'r fynedfa wedi'i lleoli gyferbyn â Gorsaf Heddlu Canol Caerdydd.

Ffôn: **029 2087 1684**


**Oriau Agor:**

| | |
|---|---|
| Llun | 8.30am - 3.30pm |
| Mawrth | 8.30am - 3.30pm |
| Mercher | 8.30am - 3.30pm |
| Iau | 8.30am - 3.30pm |
| Gwener | 9.00am - 3.30pm |

***Drwy apwyntiad yn unig.***



Swyddfeydd Cofrestru Bro Morgannwg




Mae dwy swyddfa gofrestru ym Mro Morgannwg:

***Gellir trefnu apwyntiadau ar-lein.***

| **Swyddfa Gofrestru'r Barri** | **Swyddfa Gofrestru Penarth** |
|---|---|
| Swyddfeydd Dinesig<br>Heol Holton<br>Y Barri<br>CF63 4RU | West House<br>Heol Stanwell<br>Penarth<br>CF64 2YG |
| Llun - Iau: 9:00am - 1:00pm / 2:00pm - 4:00pm*<br>Gwener: 9:00am - 1:00pm / 2:00pm - 3:30pm* | Llun - Gwener:<br>9.00am - 1.00pm /<br>2:00pm - 4:00pm* |

***Drwy apwyntiad yn unig**

Dylai ymwelwyr fynd at ddesg y dderbynfa ar y llawr daear, lle cyfeirir chi i'r Swyddfa Gofrestru.

**01446 700111** / Tu Allan i Oriau: **01446 747874**
*RegistrationService@valeofglamorgan.gov.uk*

Mae'n bosibl cofrestru marwolaeth mewn Swyddfa Gofrestru wahanol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau gallwch gysylltu â'r Swyddfa Gofrestru i'w trafod.

Dylid mynd â'r dystysgrif o achos marwolaeth at Gofrestrydd Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau cyn gynted â phosibl. Mae'n ofyniad cyfreithiol i gofrestru marwolaeth o fewn pum niwrnod gwaith oni bai bod y Cofrestrydd yn ymestyn y cyfnod hwnnw.

## Pwy all gofrestru marwolaeth?

Dylai'r farwolaeth gael ei chofrestru gan un o berthnasau'r ymadawedig. Os nad oes perthnasau i'w cael yna mae'n bosibl i bobl eraill gofrestru'r farwolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys;

1. Rhywun oedd yn bresennol yn ystod y farwolaeth
2. Cynrychiolydd y sefydliad / ysbyty lle digwyddodd y farwolaeth
3. Y person sy'n rhoi cyfarwyddyd i'r Trefnydd Angladdau

## Pa wybodaeth sydd ei hangen ar y Cofrestrydd?

- Y dystysgrif feddygol o achos marwolaeth a roddwyd gan yr ysbyty, meddyg teulu neu'r Crwner
- Enw llawn a chyfeiriad yr ymadawedig (enw morwynol os yn briodol)
- Dyddiad a man geni
- Galwedigaeth yr ymadawedig a galwedigaeth cymar, os yn briod
- Pensiynau gwladol a budd-daliadau a dderbynnir
- Enw a dyddiad geni unrhyw weddw sy'n goroesi
- Naill ai rhif Gwasanaeth Iechyd Gwladol yr ymadawedig, os yw'n hysbys, neu'r cerdyn meddygol ei hun (os yw ar gael)
- Tystysgrif geni a phriodi (os ar gael).

## Gwasanaeth Dweud wrthym Unwaith

Fel ffordd i helpu i leihau ychydig ar y straen sy'n gysylltiedig â'r broses weinyddol, gellir darparu'r gwasanaeth 'Dweud wrthym Unwaith' pan gofrestrir y farwolaeth. Mae'r gwasanaeth hwn yn trosglwyddo gwybodaeth i nifer o adrannau llywodraeth a gwasanaethau cyngor lleol eraill.

Os defnyddir y gwasanaeth efallai y gallant ddweud wrth rai o'r sefydliadau canlynol:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Y Gwasanaeth Pensiynau, Anabledd a Gofalwyr
- Canolfan Byd Gwaith
- Cynllun Pensiynau Rhyfel
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Budd-daliadau Plant
- Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith
- Swyddfa Budd-daliadau Tai
- Swyddfa Budd-daliadau'r Dreth Gyngor
- Tai Cyngor
- Y Dreth Gyngor
- Llyfrgelloedd
- Bathodynnau Glas
- Gwasanaethau Etholiadol
- Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Gwasanaeth Pasbort
- Gwasanaethau Oedolion
- Gwasanaeth Teleofal

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn: *www.gov.uk/tell-us-once*

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cofrestrydd yn rhoi tystysgrif i chi (a elwir yn ffurflen werdd). Bydd y Trefnydd Angladdau angen hon er mwyn cael yr awdurdod i barhau gyda'r trefniadau ar gyfer yr angladd.

Bydd hefyd yn rhoi tystysgrif cofrestriad marwolaeth i chi; dylech ddarllen y wybodaeth ac oes unrhyw ran ohoni'n berthnasol, llenwch y dystysgrif a'i hanfon, neu fynd â hi'n bersonol, i'r swyddfa nawdd cymdeithasol.

Mae ffi i'w thalu am gopïau o'r dystysgrif (marwolaeth); bydd y Cofrestrydd yn eich cynghori ynglŷn â faint o gopïau y gallai fod eu hangen arnoch. Bydd angen y rhain ar gyfer banciau, cymdeithasau adeiladu, cwmnïau yswiriant, cyfreithwyr neu ar gyfer hawliadau pensiwn ac ati. Os oes eu hangen yn ddiweddarach fe fydd y ffi yn uwch.

## Beth os oes angen i'm perthynas neu ffrind gael ei drosglwyddo/throsglwyddo y tu allan i Gymru neu Loegr?

Os oes angen mynd â'r ymadawedig y tu allan i Gymru neu Loegr rhaid i rywun wneud cais i'r Crwner am ffurflen 'Tu Allan i Gymru / Lloegr'. Gellir trefnu hyn drwy eich Llysgennad neu eich Trefnydd Angladdau. Bydd angen i chi hefyd gael tystysgrif 'rhydd o haint' y gall yr ysbyty neu feddyg teulu ei darparu.

## Sut ydw i'n trefnu'r angladd?

Os yw eich perthynas neu ffrind wedi gwneud Ewyllys mae'n bwysig y caiff ei darllen cyn gynted â phosibl gan y gallai gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'i ddymuniadau/dymuniadau.

Mae'n syniad da i gysylltu â Threfnydd Angladdau o'ch dewis cyn gynted â phosibl. Gellir cael y manylion yn y llyfr ffôn neu ar y we. Bydd yn rhoi amcanbris i chi a pheidiwch â bod ofn trafod ffyrdd i leihau'r gost a ddyfynnwyd. Efallai y bydd gennych yr hawl i gael cymorth gyda chostau angladd ac ar gyfer hyn bydd angen i chi gysylltu â'r Adran Nawdd Cymdeithasol leol.

Os ydych yn derbyn rhai o'r budd-daliadau canlynol efallai y bydd gennych hawl i Daliad Angladd Cronfa Gymdeithasol;

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol
- Credyd Treth Plant ar gyfradd uwch na'r elfen teulu
- Budd-daliadau Tai
- Credyd Cynhwysol

Os oedd person a fu farw yn byw yn ardal Caerdydd, efallai y bydd ganddo/ganddi hawl i 'Angladd Caerdydd'; gall y staff yn y Swyddfa Profedigaethau eich cynghori ynglŵn â pha drefnydd angladdau y byddai angen i chi gysylltu ag ef/hi i drafod hyn. Ffôn: **029 2074 2789**.

Neu, gallwch gysylltu â Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd i gael cyngor defnyddiol am angladdau a hunan-drefnir. Nid oes yn rhaid i chi gael seremoni angladdol, defnyddio gweinidog crefyddol na threfnydd angladdau.

Os byddwch yn dewis trefnu'r angladd eich hun byddai adnoddau defnyddiol eraill yn cynnwys;

- Y Ganolfan Marwolaeth Naturiol - Ffôn: **01962 712690**
- Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd - Ffôn: **029 2054 4820**

## Beth am yr Ystâd a'r Ewyllys?

Os ydych chi'n ysgutor ewyllys chi fydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr hyn a ddywedir yn yr Ewyllys yn cael ei gyflawni.

Efallai y bydd angen i chi wneud cais am brofiant. Tystysgrif a roddir gan y llys yw profiant sy'n dweud bod Ewyllys yn ddilys ac y gall yr ysgutorion weinyddu'r ystâd.

Bydd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu gyfreithiwr yn dweud wrthych beth sydd angen ei wneud. Gellir cysylltu â Chofrestrfa Brofiant Cymru ar **029 2047 4373**.

## Beth os yw'n marw heb Ewyllys?

Os bydd rhywun yn marw heb adael Ewyllys ddilys yna dywedwn ei fod ef neu hi wedi marw'n ddiewyllys. Mae angen cael Grant Llythyrau Gweinyddu gan y Gofrestrfa Brofiant er mwyn gweinyddu'r ystâd. Y personau sydd â'r hawl i wneud cais am y Grant a'r personau sydd â'r hawl i elwa gan yr ystâd yw'r perthnasau agosaf mewn trefn sydd wedi'i phennu. Bydd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu gyfreithiwr yn eich cynghori ynglŵn â beth sydd angen ei wneud. Gellir cysylltu â Chofrestrfa Brofiant Cymru ar **029 2047 4373**.

**Rhestr wirio derfynol o'r dogfennau a allai fod angen eu dychwelyd:**

- Holl ddogfennau pensiwn, er enghraifft y cerdyn
- Offer GIG megis cadeiriau olwyn ac ati
- Trwydded yrru i'r DVLA, Abertawe
- Pasbort i'r swyddfa pasbort (gallwch ofyn iddo gael ei ddychwelyd i chi pan fydd wedi cael ei ganslo)
- Llyfrau a thocynnau llyfrgell
- Tocynnau tymor
- Cardiau aelodaeth cymdeithasau neu glybiau
- Offer sydd wedi'i rentu – setiau teledu, fideos ac ati
- Dogfennau cofrestru car er mwyn newid perchnogaeth
- Byddai angen dychwelyd Atwrneiaeth Arhosol/Barhaus cofrestredig i'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar gyfer ei ganslo

**Pobl y gallech fod am eu hysbysu yn dilyn y farwolaeth:**

- Cyflogwr
- Undeb Llafur
- Cymdeithas Adeiladu
- Cwmnïau Cerdyn Credyd
- Danfoniadau'r Post Brenhinol
- Swyddfa Nawdd Cymdeithasol
- Cwmnïau Cyfleustodau
- Cwmni Yswiriant bywyd
- Cwmni Yswiriant Car
- Athro plentyn neu berson ifanc
- Banc
- Adran Tai
- Landlord
- Siop Bapurau Newydd
- Dyn Llaeth
- Cyllid y Wlad
- Swyddfeydd y Cyngor
- Awdurdod Trwydded Deledu
- Pryd ar Glud ac ati
- Cwmnïau Rhentu

| Detholiad o Rifau Ffôn a<br>Gwefannau Cymorth / Gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **Age UK Cymru**<br>www.ageuk.org.uk | Sefydliad cenedlaethol ar gyfer yr oedrannus | Ffôn:<br>0800 169 2081 |
| **Gwasanaeth Cwnsela Teuluoedd Asiaidd**<br>asianfamilycounselling.org/ | Cwnsela dros y ffôn | Ffôn:<br>020 8571 3933 |
| **BACP**<br>(Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain):<br>www.bacp.co.uk | Cyngor ar ddewis therapydd a rhestr o therapyddion achrededig | Ffôn:<br>01455 883300 |
| **Canolfan Cyngor Profedigaeth**<br>www.bereavementadvice.org | Cyngor pan fydd rhywun yn marw (gwasanaeth ffôn am ddim) | Ffôn:<br>0800 634 9494 |
| **Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd** | Wedi'u lleoli yn Amlosgfa Thornhill; ar gael ar gyfer cyngor | Ffôn:<br>029 2054 4820 |
| **Adran Caplaniaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | Ar gael 9-5 Llun hyd Gwener ac mae'r tîm yn darparu gwasanaethau ar-alw 24/7 | Ffôn:<br>029 2074 3230 |
| **Llinell Gymorth Marwolaeth Plentyn**<br>www.childdeathhelpline.org.uk | Gwasanaeth ffôn am ddim ar gyfer y rheini yr effeithir arnynt gan farwolaeth plentyn | Ffôn:<br>0800 282 986<br>ar gyfer ffonau symudol<br>Ffôn:<br>0808 800 6019 |

| | | |
|---|---|---|
| **Canolfan Cyngor ar Bopeth**<br>www.citizensadvice.org.uk | Gwefan cynghori | |
| **Hosbis y Ddinas**<br>info@cityhospice.org.uk | Mae ystod o gefnogaeth ar gael yn cynnwys cwnsela unigol a grŵp ar gyfer oedolion a phlant sydd wedi colli rhywun oedd wedi derbyn gofal yn Hosbis y Ddinas. | Ffôn:<br>029 2052 4158 |
| **Cyfeillion Tosturiol**<br>www.compassionatefriends.org | Rhieni mewn profedigaeth yn cynnig cefnogaeth i'r rheini sydd wedi cael profiad o blentyn o unrhyw oed yn marw | Ffôn:<br>0345 123 2304 |
| **Swyddfa'r Crwner** (drwy Orsaf Heddlu Canol Caerdydd) | Yn dilyn marwolaeth annisgwyl, diesboniad | Ffôn:<br>101 |
| **Gofal mewn Galar Cruse**<br>(Caerdydd a'r Fro)<br>www.cruse.org.uk | Hyrwyddo lles pobl sy'n dioddef profedigaeth a galluogi unrhyw un sy'n dioddef profedigaeth a achosir gan farwolaeth i ddeall eu galar ac ymdopi â'u colled | Ffôn:<br>029 2022 6166 |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhwydwaith Teuluoedd Rhoddwyr**<br>www.donorfamilynetwork.co.uk | Cefnogaeth a gynhelir gan deuluoedd sy'n rhoddwyr ar gyfer teuluoedd sy'n rhoddwyr | Ffôn:<br>0845 680 1954 |
| **ISSA**<br>(Cymdeithas Cymorth Cymdeithasol Ihsaan)<br>www.issa-wales.org | Mae gwasanaethau cefnogaeth yn cynnwys cwnsela, cyfeillio, eiriolaeth, cyfryngu, caplaniaeth, addysg a gwybodaeth a chyngor | Ffôn:<br>029 2034 5294 |
| **Gwasanaeth Cwnsela Profedigaeth Iddewon** | Gwasanaeth cwnsela | Ffôn:<br>0208 951 3881 |
| **Prosiect Profedigaeth Pobl Lesbiaidd a Hoyw** | Llinell gymorth ar gyfer pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol sydd wedi colli rhywun sy'n annwyl iddynt | Ffôn:<br>0300 330 0630 |
| **Ymddiriedolaeth Lullaby**<br>www.lullabytrust.org.uk | Cefnogaeth yn dilyn marwolaeth babi yn sydyn neu'n annisgwyl | Ffôn:<br>0808 802 6868 |
| **Marie Curie**<br>www.mariecurie.org.uk | Gwybodaeth a gwasanaethau cefnogi | Ffôn:<br>029 2042 6000 |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Gymdeithas Camesgor**<br>www.miscarriageassociation.org.uk | Ar gael ar gyfer cefnogaeth a gwybodaeth yn dilyn marwolaeth babi (cyfnod beichiogrwydd hyd at 24 wythnos) | Ffôn:<br>01924 200799 |
| **Llinell Gymorth Cymuned Fwslimaidd** | Gwasanaeth gwrando cyfrinachol, cymorth ymarferol a gwybodaeth | Ffôn:<br>020 8904 8193 |
| **NAFD**<br>www.nafd.org.uk | Cymdeithas Genedlaethol Trefnwyr Angladdau | Ffôn:<br>01217 111343 |
| **Cofrestrfa Brofiant Cymru**<br>www.gov.uk/wills-probate-inheritance | | Ffôn:<br>029 2047 4373 |
| **Samariaid**<br>www.samaritans.org.uk | Llinell gymorth gyfrinachol ar agor 24 awr y dydd | Ffôn:<br>116 123 |
| **SANDS**<br>www.uk-sands.org | Elusen Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion | Ffôn:<br>020 7436 7940 |
| **Goroeswyr Profedigaeth drwy Hunanladdiad**<br>www.uk-sobs.org.uk | Goroeswyr profedigaeth drwy hunanladdiad | Ffôn:<br>0300 111 5065 |

| | | |
|---|---|---|
| **WAY Widowed and Young**<br>www.widowedandyoung.org.uk | Gweddw ac ifanc - ar gyfer pobl o dan 50 oed | |
| **Gweddwon Cymru**<br>www.welshwidows.co.uk | Cefnogaeth ar gyfer gwŵr a gwragedd gweddw o unrhyw oed | Ffôn:<br>07749 542 858 |
| **Winston's Wish**<br>www.winstonswish.org.uk | Elusen sy'n cynnig gwybodaeth a chefnogaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth | Ffôn:<br>0808 8020021 |
| **2 Wish Upon a Star**<br>www.2wishuponastar.org | Mae 2 Wish Upon A Star yn darparu cefnogaeth profedigaeth ar gyfer teuluoedd sydd wedi colli plentyn neu oedolyn ifanc 25 oed ac iau yn sydyn ac yn drawmatig. | Ffôn:<br>01443 719822 |

***Roedd y wybodaeth uchod yn gywir pan gafodd ei chyhoeddi.***

# Adborth Gwasanaeth Nyrsio Ardal

Rydym yn sylweddoli bod hon yn adeg anodd iawn i chi a'ch teulu ond fel sefydliad byddem yn gwerthfawrogi eich adborth, boed hwnnw'n dda neu'n ddrwg, gan y bydd yn ein helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallwn.

**Gallwch ddychwelyd y ffurflen hon, am ddim, i:**

RHADBOST: RSSC-ELSC-RJAC
Er sylw: Gwasanaethau Profedigaeth,
Profiad y Claf,
Llawr Daear Uchaf Bloc C,
Ysbyty Athrofaol Cymru,
Parc Mynydd Bychan,
CAERDYDD
CF14 4XW

1. A dderbyniodd eich perthynas neu ffrind ofal gan y gwasanaeth Nyrsio Ardal cyn iddo ef neu hi farw?

........................................................................................................

........................................................................................................

2. Pryd ddigwyddodd y farwolaeth?

........................................................................................................

........................................................................................................

3. Cyn y farwolaeth a gafodd eich anghenion eu diwallu gan:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Feddygon | Do ☐ | neu | Na ŵ ☐ |
| Nyrsys | Do ☐ | neu | Na ŵ ☐ |
| Timau Arbenigol | Do ☐ | neu | Na ŵ ☐ |

Sylwadau: ..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

4. O'n gwasanaethau, a oedd unrhyw beth oeddech chi'n teimlo oedd yn arbennig o ddefnyddiol yn ystod y cyfnod anodd hwn?

Oedd ☐ neu Nac oedd ☐

Sylwadau: ..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

5. O'n gwasanaethau, a oedd unrhyw beth yr oeddech chi'n teimlo oedd yn arbennig o annefnyddiol yn ystod y cyfnod anodd hwn?

Oedd ☐ neu Nac oedd ŵ

Sylwadau: ..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

# Nodiadau

*Llyfr Profedigaeth Cymunedol*
*Dyddiad Adolygu: 2020*
*Dyddiad Cyhoeddi: 2019*